CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI

2024-25

GOVERNOR'S ANNUAL REPORT TO PARENTS

Dyma gopi cryno o adroddiad y Llywodraethwyr i rieni/gwarcheidwaid; sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ysgol o Fedi 2024 hyd ddiwedd Gorffennaf 2025.

Mae'r Llywodraethwyr yn hapus iawn i ymateb i unrhyw geisiadau unigol am wybodaeth bellach a gellir cysylltu â hwy drwy swyddfa'r ysgol.

Cynhelir cyfarfod i gyflwyno a thrafod yr Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid os bydd mwy na 10% o rieni yn ysgrifennu cais ffurfiol *.

Please find the Governors' summary report to parents / guardians; which includes information on the performance of the school from September 2024 to the end of July 2025.

The Governors are happy to respond to any individual requests for further information and can be contacted through the school office.

*A meeting will be held to present and discuss the Annual Report to Parents / Guardians if more than 10% of parents write a formal application *.*

YSGOL GLAN CONWY
Glan Conwy
LL28 5ST

Ffôn/Phone: 01492 580421
E-mail/E-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Cadeirydd/*Chairman*:
Mrs Sharon Doleman

Clerc / *Clerk*:
Swydd wag / *Vacant post*

Pennaeth / *Headteacher*: Mrs E.Price-Williams

GAIR GAN Y CADEIRYDD – MRS SHARON DOLEMAN

Mae'n bleser gen i rannu Adroddiad y Llywodraethwyr ar gyfer 2024-2025 gyda chi.
Rydym yn hynod o falch o blant Ysgol Glan Conwy a phopeth maent wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhieni a'r gofalwyr am eu cefnogaeth barhaus i'r disgyblion a'r ysgol.

Mae'r plant yn parhau i weithio'n galed i gyrraedd safonau uchel, maent yn ein hysbrydoli ni bob dydd ac rydym yn falch o bopeth maent yn ei gyflawni. Mae staff yr ysgol, y pennaeth, yr athrawon, y cynorthwywyr addysgu a'r staff cefnogi yn dangos eu hymroddiad tuag at addysg, iechyd a lles ein plant yn ddyddiol.

Diolch i'r holl staff am eu hymroddiad, gwaith caled a'u proffesiynoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf, maent wir yn dîm eithriadol. Bob dydd drwy eu hagwedd gadarnhaol a'u gwaith caled maent yn creu amgylchedd diogel i'n plant ddysgu a datblygu i'w llawn botensial.

Gyda'i gilydd mae'r staff, llywodraethwyr, disgyblion a'r gymuned yn parhau i gydweithio i sicrhau fod ein plant yn mwynhau'r profiad dysgu ac yn ffynnu fel unigolion yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Glan Conwy.

WORD FROM THE CHAIRPERSON – MRS SHARON DOLEMAN

I am delighted to share with you the Governors Report for 2024-2025.
We are extremely proud of the children of Ysgol Glan Conwy and all they have achieved over the past year. We would also like to take this opportunity to thank parents and carers for their continued support of the pupils and the school.

The children continue to work hard to achieve high standards, they inspire us every day and we are proud of all that they achieve. The school staff, the headteacher, teachers, teaching assistants and support staff show their commitment to the education and the health and wellbeing of our children daily.

Thank you to all the staff for their commitment, hard work and professionalism over the past year, they are a truly exceptional team. Every day, through their positive attitude and hard work they create a safe environment for our children to learn and develop to their full potential.

Together, staff, governors, pupils and the community continue to work together to ensure our children enjoy the learning experience and thrive as individuals during their time at Ysgol Glan Conwy.

Pob hwyl / *Best wishes*

Mrs Sharon Doleman
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Chair of Governors

YSGOL GLAN CONWY

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI *2024/25*
GOVERNORS ANNUAL REPORT TO PARENTS 2024/25

Mae'r adroddiad hon yn grynodeb o waith y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd *2024/25*
This report is a summary of the Governors' work for the academic year 2024/25

Y CORFF LLYWODRAETHOL / *GOVERNING BODY*:

Enw / *Name*	Cynrychioli / *Represent*	Cyfnod / *Period*
Mrs Mary Oliver MBE	A.A.Ll. / *L.E.A.*	2024/2028
Mr Dewi Williams	A.A.Ll. / *L.E.A.*	2024/2028
Mrs Sharon Doleman	Cynghorydd Sir / *County Councillor*	2022/2026
Mrs Tracy Hughes	Cymunedol / *Community*	2022/2026
	Cymunedol / *Community*	
Mr Huw Gerallt Evans	Cymunedol / *Community*	2022/2026
Mrs Stella Senior	Rhieni / *Parent*	2021/2025
Mr Gary Jones	Rhieni / *Parent*	2022/2026
Ms Nia Hughes	Rhieni / *Parent*	2022/2026
Mrs Alison Peel	Rhieni / *Parent*	2020/2024
Mrs Catherine Williams	Staff Ategol / *Support Staff*	2021/2025
Mrs Michelle Evans	Athrawon / *Teaching Staff*	2022/2026
Mrs Eifiona Price Williams	Pennaeth / *Headteacher*	

CYFARFODYDD RHIENI GYDA'R CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr Ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu trwy gyfrwng deiseb.
Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod Ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled bod y ddeiseb yn cynnwys llofnod yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr Ysgol, sef yr isafswm o'r canlynol:

- Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
- Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod materion yn berthnasol i'r Ysgol. Ni gynhaliwyd unrhyw gyfarfod rhieni yn ystod y flwyddyn

PARENTS MEETINGS WITH THE GOVERNING BODY

The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 now enables parents of registered pupils at the School to request up to three meetings a year with the Governing Body by petition.
The Governing Body must hold a meeting within 25 School days of receiving a petition, provided that the petition contains the signature of the required minimum number of parents of registered pupils at the School, which is the minimum of:
- Parents of 10% of registered pupils, or
- Parents of 30 registered pupils.

The meeting requested by parents must discuss issues relevant to the School. No parent meetings were held during the year

Disgrifiad o'r Ysgol Medi 2024 / *Description of the School September 2025*:

Lleolir yr Ysgol ym mhentref Glan Conwy wrth aber yr afon Conwy.
Mae'n Ysgol Gynradd Sirol Feithrin / Babanod / Iau.
Mae'n ysgol ddyddiol cydaddysgol.
Mae 112 o blant, tri athro llawn amser, yn cynnwys y Pennaeth, dau athro rhan amser a pump cymhorthydd dosbarth llawn amser gan gynnwys cymhorthydd dysgu lefel uwch ac un cymhorthydd rhan amser.
Mae'r man chwarae yn cynnwys man wyneb caled, cae'r Ysgol a man pwrpasol i'r plant Meithrin/Derbyn a Blwyddyn1 & 2.

The School is located in the village of Glan Conwy overlooking the Conwy estuary.
The School is a Nursery / Infant / Junior County Primary School.
It is a daily co-educational school.
There are 112 *pupils with three full time teachers, including the Headteacher, two part time teacher, five full time classroom assistants including a higher level teaching assistant and one part time classroom assistant.*
The play areas include a hard surface, the school playing field and an enclosure for the nursery/reception and year 1& 2 children.

Polisi Derbyn yr Ysgol / *The School's Admission Policy*

Rhan amser y Medi ar ôl i'r plentyn fod yn 3 oed. *Part time in the September following their 3rd birthday.*
Llawn amser y Medi ar ôl i'r plentyn fod yn 4 oed. *Full time in the September following their 4th birthday.*

Presenoldeb / *Attendance*

Presenoldeb yr ysgol:	94.3%	*School Attendance*
Absenoldebau awdurdodedig:	4.5%	*Authorised Absences*
Absenoldebau di-awdurdod:	1.2%	*Unauthorised Absences*

Adroddiad Ariannol / *Financial Report*:

Mae cyllideb flynyddol yr Ysgol yn cael ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn rhedeg yn ôl y flwyddyn ariannol arferol yn hytrach na'r flwyddyn academaidd. Roedd balans y cyfrif ar ddiwedd 2024-25 yn £35,655 arian wrth gefn yn dilyn grantiau funud olaf gan Llywodraeth Cymru. Roedd diffyg o £36,214 yng nghyllideb 2024-25 yn dilyn toriadau llym. Defnyddiwyd arian wrth gefn a newidiadau eraill er mwyn lleihau'r diffyg. Mae hefyd cadw mewn cof fod angen cyllido'r staff presennol tan diwedd Awst 2025 sydd yn ran o'r gyllideb nesaf. Gellr gofyn am gopi o'r fantolen llawn yn y Swyddfa.
Roedd yr arian oedd gan yr ysgol yn y Gronfa a ddefnyddir o ddydd i ddydd yn dangos £5,684 ar ddiwedd tymor yr haf.

The school's annual budget is managed by Conwy County Borough Council and is run according to the financial rather than the academic year. The balance of the reserves held at the end of 2024-25 was £35,655 following some last-minute grants by WG*. There was a shortfall of* £36,214 *in the 2025-26 budget following severe cuts. Reserves were used and changes were made in order to reduce the shortfall. We must also remember that we need to finance staffing costs until August 2025.* Full statement available on request.
The school's Current Account showed £5,684 unallocated monies at the *end of the summer term.*

Cysylltiadau â'r gymuned / *Contact with the community*:

- 'Roeddem yn cyfrannu ar gyfer y papur bro lleol, Y Pentan.
  We contributed to the local "papur bro" 'Y Pentan'.
- Ffair Lyfrau / *Book Fair*–£565.50- Gwobr i'r ysgol/ *Rewards for the school* £226.20
- Diwrnod Shwmae S'mae gyda pawb yn gwisgo coch a gwyrdd ar gyfer hyrwyddo siarad Cymraeg a Chymreictod & gweithgareddau eraill. Bu i'r Criw Cymraeg drefnu cwis i'r plant hŷn.

- *Celebrated Shwmae S'mae day by wearing red & green to celebrate speaking Welsh as well as various activities. The Criw Cymraeg also organised a quiz for the older learners.*
- Bu i ni gynnal gwasanaeth Diolchgarwch mis Hydref yng Nghapel Bryn Ebeneser gan gasglu bwyd tuag at Banc Bwyd Conwy.

  We held a Thanksgiving Service at Bryn Ebeneser Chapel in October & collected donations for Conwy Food Bank.
- Wythnos Gwrth-fwlio *11/11/- 15/11/24 – Anti-bullying week*
- Gwisgo sanau gwahanol i hyrwyddo ein bod i gyd yn wahanol 12/11/24 *Odd sock day to promote 'We are all Unique'*
  - Bu i ni ddathlu nifer o ddathliadau o amgylch y byd o Ddydd Gŵyl Ddewi i'r Flwyddyn newydd Chineaidd gan roi profiadau i'r dysgwyr o ddiwylliannau eraill.

    We celebrated and discussed various celebrations around the world from St David's Day to the Chinese New Year giving learners various experiences from other cultures.
  - Cynhaliwyd Pnawn Tê Gŵyl Ddewi ar gyfer rhieni gyda cyngerdd syml gan y dysgwyr.

    An afternoon Tea was held to celebrate St David's Day with a little concert by the learners.
- Ffair Ysgol 27/6/24 codi £625

  Summer fair 27/6/24 raising £625
- Bu i un o'n dysgwyr, gystadlu yn yr Eisteddfod eleni gyda ei gwaith celf gan ddod yn gyntaf trwy Rhanbarth Conwy ac aeth disgybl arall ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth am lefaru. Gwych.
  One of our pupils, competed in the Eisteddfod this year with her art work and came first through the Conwy region and another pupil went through to the Region Eisteddfod to compete with reciting. Brilliant.
- Fel rhan o sialens £5 cynhaliwyd diwrnod gwerthu. Cyfle i ddisgyblion bl.5 a 6 arddangos a gwerthu eu cynnyrch tuag at y gwaith entrepreneuddiol. Ac at gostau ymweliad â Chaerdydd. Diolch i'r bobl lleol am eu cefnogaeth.
  As part of the £5 challenge we held a day in school to help Yr.5 & 6 learners exhibit and sell the produce they had been working on as part of their entrepreneurship work. They planned everything and then sold their produce with profit being shared between themselves and the visit to Cardiff. A big thank you to the community for supporting them.
- Bu i weddill dysgwyr yr ysgol weithio fel grŵp neu fel dosbarth ar gyfer eu busnesau hwy gan werthu eu cynnyrch yn mis Gorffennaf.
  All other learners had an opportunity to work as groups or classes for their businesses to sell their produce in July.
- Bu Jwls Williams yma o Oriel Mostyn i gynnal gweithdy celf am ddim gyda bl.2&3.
  Jwls Williams from Oriel Mostyn held a free workshop for yrs.2&3.
- Casglwyd 33 bocs anrheg Nadolig eleni tuag at elusen T4U. Mae'r elusen T4U yn mynd a anrhegion Nadolig i blant a theuluoedd amddifad a bregus.
  33 Christmas present boxes were collected for the T4U charity this year. The T4U charity take Christmas presents to deprived and vulnerable children and families.
- Llwybr Aur - Dydd Iau Ionawr 30ain bu i ni fel ysgol gymryd rhan yn ymgyrch Doddie Weir i godi arian ar gyfer ymchwil i MND (Motor Neurone Disease) fel rhan o weledigaeth yr elusen i gael gwared o MND. Mae'r ymgyrch yma yn agos iawn i'n calonnau yma yn Ysgol Glan Conwy oherwydd fod rhai o'n teuluoedd wedi colli anwyliaid i'r afiechyd creulon ac i ninnau yn yr ysgol golli aelod annwyl a phoblogaidd iawn o'n hysgol, sef Mr Stuart Morris. Dyna pam y bu ni creu Llwybr Aur o giât yr ysgol i ddrws yr ysgol (llwybr a wnaeth Mr Morris ei gerdded cannoedd o weithiau). Cawsom gefnogaeth gwych gan ein rhieni, cymuned Glan Conwy ac hefyd teulu Mr Morris. Casglwyd swm anhygoel o £1000 ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniadau hael iawn.

  Ar y dydd Llun aeth plant blwyddyn 5 a 6 i Glwb Rygbi Nant Conwy i gyfarch y criw oedd yn cymryd rhan yn y daith feicio noddedig tuag at My Name'5 Doddie Foundation gyda plant o ysgolion eraill y Dyffryn. Cawsom gyfle i glywed ychydig o hanes Doddie Weir, i gyfarfod rhai o'r enwogion rygbi oedd ar y daith yn ogystal a chyflwyno'r arian a gasglwyd trwy haelioni ysgol, pentref a chymuned Glan Conwy.
- *On Thursday, 30th January we as a school took part in the Doddie Weir campaign to raise money for MND (Motor Neurone Disease) research as part of the charity's vision to end MND. This campaign is very close to our hearts here at Ysgol Glan Conwy because some of our families have lost loved ones to the cruel*

disease. We have also lost a beloved and very popular member of our school, Mr Stuart Morris. That is why we created a Golden Path from the school gate to the school door (a path which Mr Morris walked hundreds of times). We had great support from our parents, the Glan Conwy community and also Mr Morris's family. An incredible sum of £1000 was collected and we are very grateful to everyone for their very generous contributions.

On the Monday, year 5 and 6 children went to Nant Conwy Rugby Club to greet the crew who were taking part in the sponsored cycle ride to raise money for My Name'5 Doddie Foundation with children from other schools in the Valley. We had the opportunity to hear a bit of Doddie Weir's history, to meet some of the rugby celebrities who were on the trip as well as to present the money collected through the generosity of the Glan Conwy school, village and community.

- Gweithdy cerddorol gyda Gethin Thomas a Cerdd Amdani dechrau mis Gorffennaf.
  Music workshop with Gethin Thomas through Cerdd Amdani at the beginning of July.
- Mae dysgwyr b.3 & 4 wedi bod yn ran o waith yr Ysgol Greadigol y flwyddyn yma gyda Ed Holden (Mr Phormula), Sara Zyborska (cerddoriaeth) ac Elly Stringer (celf). Gwaith creadiogol i annog dyfalbarhad, cydweithio a datblygu'r Gymraeg.
  Yrs.3 & 4 learners have taken part in our new Creative School project this year. They have been working with Ed Holden (Mr Phormula), Sarah Zyborska (music) and Elly Stringer (art) over the year on various projects to aid developing resilience, cooperation and Welsh creatively through music and art.
- I ddathlu diwrnod VE cynhaliwyd pnawn tê, Tywallt Paned o Garedigrwydd gan godi £170 tuag at y Groes Goch.
  To celebrate VE day we held an afternoon tea here to support, 'Pour a Cup of Kindness' Campaign raising £170 for The Red Cross.
  Be Internet Legends – sioe Parentzone ar ddiogelwch y rhyngrwyd & ymweliad gan yr AS Claire Hughes Bl.3-6
  Be Internet Legends – Parentzone show about internet safety & a visit by Claire Hughes MP Yrs.3– 6
- Athro Matthias Green & staff o Prifysgol Bangor yn trafod bywyd yn y cefnfor gyda Bl.5 & 6
  Prof. Matthias Green & staff from Bangor Uni came to show & talk about marine animals
- Bu Shirley Williams o Amgueddfa Llandudno i gynnal gweithdy am yr Ail Ryfel Byd gyda dysgwyr Bl.4 & 5.
  Shirley Williams from Llandudno Museum, held a workshop here for Yr4 & 5 pupils about the 2WW.
- Cynhaliodd Bl.5 & 5 taith gerdded at RNLI & Ymweliad Caerdydd gan godi £1352.40. Rhoddwyd £675 i RNLI yn dilyn cyflwyniad ar ddiogelwch dwr ganddynt.
  Yrs.5 & 6 held a sponsored walk for RNLI & Cardiff visit collecting £1352.40. £675 was given to RNLI following a presentation by them on water safety.

Cynhaliwyd casgliadau at Pnawn Tê Macmillan £173, Plant Mewn Angen £270, Apêl Pabi £113 a diwrnod Siwmper Nadolig £65. Casglwyd bwyd ar gyfer Banc Bwyd Conwy adeg Diolchgarwch, Diwrnod Trwyn Coch £259.30.

We raised money for Macmillan Coffee Appeal £173, Children in Need £270, Poppy appeal £113 and Christmas Jumper day £65, Comic relief £259.30. Food for Conwy Foodbank was collected for Harvest.

Mae Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trefnu amrywiol weithgareddau er mwyn codi arian er budd y plant. Eleni yr ydym wedi bod yn ffodus i dderbyn yr isod ganddynt:

- £155 tuag at y Sialens £5
- £272 fel cyfraniad at ymweliad i weld Deian a Loli yn Theatr Pontio
- £237 Crysau tim newydd
- £469.97 ar gyfer pyst pel rhwyd newydd & Boccia
- £100 i brynu pyst symudol pêl droed symudol, a pwmp chwythu peli
- £300 tuag at bws i Gaerdydd

The Friends of Ysgol Glan Conwy met on a regular basis to organise various events and raise funds towards the school and of course the children. We have been fortunate to receive moneis from the PTA this year to fund:

- £155 towards the £5
- £272 towards the cost of a bus to Theatr Pontio to see Deian a Loli
- £237 for new team shirts

- £469.97 towards netball post & Boccia set
- £100 to buy mobile football posts & pump to pump up balls
- £300 towards Cardiff bus

Anghenion Dysgu Ychwanegol 2024/25 *Additional Learning Needs:*

Miss Charlotte Hughes yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a Mrs Mary Oliver yn ysgwyddo cyfrifoldeb y Llywodraethwyr, mae'n cynnwys trafod yn rheolaidd gydag athrawon dosbarth, staff cefnogi a rhieni. Mae gweithgareddau penodol a Chynlluniau Addysgol Unigol yn cael eu cynllunio ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae staff cefnogi yn y dosbarth yn gweithio`n agos iawn gydag unigolion i gyflawni eu rhaglenni gwaith. Rydym yn cyd-weithio gydag asiantaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol allanol i sicrhau'r cymorth priodol, ac mae rhai plant wedi elwa o gael sylw un i un. Mae'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn weithredol yn yr ysgol.

Miss Charlotte Hughes is the additional learning needs co-ordinator and Mrs Mary Oliver takes responsibility on behalf of the Governing Body. This involves regular discussions with teachers, support staff and parents. Specific tasks and Individual Educational Plans are given to children with Additional Learning Needs and teachers and support staff work hard to implement these plans as the children strive to succeed with his/her targets. We work with relevant outside agencies to ensure appropriate support and some pupils receive one-to-one support. We fully comply to the Additional Learning Needs Code.

Chwaraeon / *Sport*:

- Cafodd Bl.5 a 6 ychydig o hyfforddiant beicio.
  Yr.5 & 6 received some cycle training.
- Sesiynau Addysg Gorfforol ym mhob dosbarth.
  Weekly Physical Education sessions in each class.
- Bl.3 – 6 wedi derbyn 10 sesiwn nofio dwys/diogelwch dŵr ym mhwll nofio Llandudno.
  Yrs.3 – 6 received 10 intense swimming lessons / water safety at Llandudno swimming pool.
- Kerbcraft wedi cynnal sesiynnau yma gyda rhieni sy'n gwirfoddoli a phlant bl.1 ar ddiogelwch wrth y ffordd.
  Kerbcraft have held sessions with yr.1 pupils & parent volunteers concerning road safety.
- MW Sports & Kick It– clwb chwaraeon ar ôl ysgol
  MW Sports & Kick It – sports club after school
- Sesiwn Criced – Joe Lambe, Hyfforddwr Criced Cymunedol Bl.3 – 6
  Cricket session with Joe Lambe Community Cricket Coach Yrs.3-6
- Sesiynau pêl droed, rygbi, criced a tenis gyda hyfforddwyr proffesiynol.
  Football, rugby, cricket and tennis sessions with a professional coach.
- Bu i'r disgyblion hynaf gymryd rhan mewn twrnament criced, rygbi a thwrnament pêl droed.
  The older pupils took part in a cricket tournament, rugby and a football tournament.
- Bu inni gynnal ein mabolgampau gan wahodd rhieni i weld ein chwaraeon.
  We held our sports day inviting parents to join us in our sports day.
- Bu i rai dysgywr fynychu cystadleuaeth athletau clwstwr yn Ysgol Bro Gwydir.
  Some children competed at Ysgol Bro Gwydir in a cluster athletics competition.
- Cadw'n ddiogel yn y dŵr, Ffit Conwy, Porth Eirias – bl.6
  Year 6 learners went to Porth Eirias to have a Safe Water day organised by Ffit Conwy.

CWRICWLWM / CURRICULUM

Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm llawn ac eang i'r holl ddisgyblion yn ddiwahan ac mae sgiliau'r plant yn datblygu'n dda ymhob maes. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu er mwyn codi safonau.
The school offers a full and balanced curriculum to all children, who in turn develop their skills accordingly and to a high standard. A range of teaching methods are used to raise standards.

Categori Iaith / Iaith yr Ysgol

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am sicrhau bod pob cyfle i blant a phobl ifanc y sir i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog / amlieithog y maent yn rhan ohoni fel eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Ar draws ysgolion Cymru, y mae nifer y categorïau ysgolion wedi newid o bump i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Mae ysgol cyfrwng Saesneg yn ysgol Categori 1, ysgol dwy iaith yn ysgol Categori 2 ac ysgol cyfrwng Cymraeg yn Categori 3.

Gan mai nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu darpariaeth y Gymraeg ymhob categori iaith, mae dau is-gategori trosiannol yn y sector cynradd a dau yn yr uwchradd, er mwyn hwyluso'r broses i ysgolion symud i'r categori nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion dyfu eu darpariaeth Cymraeg dros gyfnod estynedig o amser.

Y mae Ysgol Gynradd Glan Conwy wedi ei gosod yn y categori ieithyddol 2 Trosiannol ers Medi 2022 (categori 4 rhwng 20% a 50% yn ôl y drefn flaenorol). Byddwn am gyfnod penodedig yn gwireddu ein anghenion ieithyddol cwricwlaidd yn unol â gofynion statudol Cwricwlwm i Gymru er mwyn ymgyrraedd â diffiniad categori 2 dwy iaith.

Categori 2 - Ysgol Dwy iaith

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr.

Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3.

Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn eraill, neu, bod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.

Nôd yr ysgol yw galluogi pob disgybl hyd eithaf eu gallu fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd unrhyw ohebiaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn ddwyieithog.

Language Category / Language of the School

Conwy County Borough Council has a vision to ensure that all pupils in the county have fluent and confident language skills in Welsh and English. We want to ensure that every opportunity is given to the children and young people of the county to be full members of the bilingual / multilingual society they belong to so that they wish to use the language within the family, in their communities and in the workplace.

Across schools in Wales, the number of school categories has been changed from five to three in the primary sector and three in the secondary sector. An English medium school is a Category 1 school, a dual language school is a Category 2 school and a Welsh medium school is a Category 3 school.

As the Welsh Government's aim is to increase the Welsh language provision in all language categories, two transitional sub-categories have been introduced in the primary and secondary sectors, to ease the process for schools to move to the next category. This will give schools an opportunity to expand their Welsh language provision over an extended period of time.

Ysgol Glan Conwy has been placed in the 2 Transitional language category since September 2022 (category 4 between 20% and 50% in the previous system). For a specific period we will realize our curricular linguistic needs in accordance with the statutory requirements of the Curriculum for Wales to achieve the category 2 dual language definition.

Category 2 – Dual language
Welsh and English will be used for internal communication as well as with parents and carers. There is clear understanding that maintaining a Welsh language ethos within the school will support positive attitudes towards Welsh language use. A learner in a school of this category will be able to speak, read, write and listen in English and Welsh according to age and ability. Welsh language skills will be further strengthened by increasing the amount of learning opportunities (curricular as well as extra-curricular) offered through the medium of Welsh. Where Welsh is used as a medium of learning, occasional English is used at times to reinforce the learners' understanding. With the right support, learners could progress to a Category 3 Welsh-medium secondary school. At least 50% of learners' school activities (both curricular and extra-curricular) will be in Welsh. This could be achieved in different ways depending on the school context. It could be by using full Welsh-medium immersion up to age 7 with choice offered in the other year groups, or that 50% of school activities are in Welsh throughout.

The school's aim is to enable each pupil to the utmost of their ability to be confident bilingually so that they may become full members of the bilingual society they belong to. Any correspondence between the school and the home will be bilingual.

Trefniadau diogelwch yr ysgol / *The school's safety arrangements*:

Mae`r ysgol yn sicrhau diogelwch plant, staff ac ymwelwyr i`r ysgol drwy weithredu`r polisi Iechyd a Diogelwch.
The school ensures the safety and security of all stakeholders by adhering to the school's Health and Safety policy.

Cyfleusterau Toiled a Ddarperir gan yr Ysgol / Toiled Facilities that are Provided by the School

Mae 3 ardal ar gyfer toiledau o fewn prif adeilad yr ysgol. Un sy'n cynnwys toiledau llai, 'urinal' a sinciau is ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen; toiledau arwahan i ferched a bechgyn ar gyfer y plant hŷn; a 2 doiled unigol wrth ymyl yr ystafell athrawon ar gyfer staff, ymwelwyr ac hefyd merched hŷn yr ysgol sydd wedi dechrau ar eu cylchred misol. Mae un o doiledau'r staff yn cynnwys bocs i roi gwastraff mislif ynddo sy'n cael ei wagio gan gwmni allanol. Mae toiled yn y caban sydd yn cael ei ddefnyddio gan y Clwb ar Ôl Ysgol. Mae'r toiledau yn cael eu glahnau yn ddyddiol gan lanhawyr yr ysgol. Maent mewn cyflwr da iawn.

There are 3 areas for toilets in the main school building. One has smaller toilets, a low urinal and lower sinks for Foundation Phase pupils; there are separate toilets for the male and female older pupils; by the staff room there are 2 separate toilets for the staff, visitors and older girls who have started menstruating. One of these toilets contains a sanitary disposal unit which is emptied by an outside specialised company. The toilet located in the outside cabin is used by the After School Club. The toilets are cleaned daily by the school cleaning staff. They are in a good condition.

Ysgol Iach / Healthy School

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy eu polisi 'Bwyd a ffitrwydd' a thrwy fagu ethos bwyta'n iach o fewn yr ysgol. Mae croeso i blant ddod a ffrwyth i'r ysgol ar gyfer eu byrbryd ond ddim bar siocled, bisged neu fferins. Mae 2 ffynnon ddŵr yn yr ysgol ar gyfer defnydd y plant a'r staff. Ni chaniateir iddynt ddod a diodydd 'fizzy' neu 'pop' i'r ysgol. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo trwy ein gwersi a'n themau megis thema 'Bwyd' a thrwy gweithgareddau gwyddoniaeth.
Cynnigir cinio ysgol sydd wedi ei gynllunio'n ofalus gan ddeiategydd i fod yn gytbwys a iach i'r disgyblion yn ddyddiol. Mae hyn yn ran o Wasanaeth Arlwyo yr Awdurdod Lleol. Ers Medi 2023 mae cinio am ddim i holl ddysgwyr yr ysgol.

The school promotes healthy eating and drinking through the 'Food and Fitness' policy and by promoting an ethos towards eating healthily within the school. Every child is welcome to bring a fruit to school for their break, chocolate bars, biscuits, sweets etc are not allowed. There are 2 water fountains in the school for the children and staff to use. They are not allowed to bring fizzy drinks or 'pop' to the school. Healthy eating is promoted through lessons and school themes such as 'Food' and through science activities.
The daily school dinner which the children can have has been carefully planned by a dietician to be balanced and healthy. This is part of the LA Catering Service. Since September 2023 all school dinners are free for primary learners.

Cydraddoldeb / *Equality :*

Polisi'r ysgol yw hyrwyddo pob disgybl i gyrraedd ei botensial beth bynnag yw ei ryw, hil, crefydd, anghenion ychwanegol neu gefndir cymdeithasol.

The school's policy is to ensure every pupil reaches his/her full potential whatever their sex, race, religion, additional needs or social background.

POLISÏAU'R YSGOL /SCHOOL POLICIES
Cafodd nifer o bolisïau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac mae copïau ohonynt ar gael yn yr ysgol. Maent yn y broses o gael eu diweddaru a'u cynnwys hefyd ar gwefan yr Ysgol.

A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request. Policies are also being updated and included on our school website.

Blaenoriaethau / *Priorities*

Mae'r ysgol yn gosod blaenoriaethau yn flynyddol, yn ogystal â'i thasgau bob dydd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar anghenion y disgyblion, a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
Prioriteis are set by the school every year, as well as daily tasks. The priorities are based on the needs of the learners, local and national priorities.

Y blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 yw / The priorities for 2025-26 are:

Cynllun Ôl Arolwg	Argymhelliad 1 (A1) & 2 (A2) & 3 (R3) Estyn Medi 2024
Post Inspection Plan	*Recommendation 1 (R1) & 2 (R2) & 3 (R3) Estyn September 2024*

A1 Gwella medrau siarad Cymraeg disgyblion – gweler B1
R1 *To improve pupils' Welsh speaking skills - see P1*

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn mewn cyd-destunau amrywiol
R2 *To extend opportunities for pupils to fully use their numeracy skills in various contexts*

A3 Darparu gweithgareddau sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion, ac sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu
R2 *To provide activities that ensures consistent challenge for pupils, which allow them to make independent choices regarding their learning*

Blaenoriaeth 1 ***Priority 1***

Parhau i wella hyder a medrau siarad Cymraeg dysgwyr.
Continue to improve learners' confidence and Welsh speaking skills.

Blaenoriaeth 2 ***Priority 2***

Ehangu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso a defnyddio eu medrau rhifedd i bwrpas, ac ar y lefel her briodol.
Expand the opportunities for learners to apply and use their numeracy skills purposefully and at the appropriate challenge level.

Blaenoriaeth 3 ***Priority 3***

Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth a chyfleoedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar draws yr ysgol.
Continue to develop Science & Technology provision and opportunities throughout the school.

NEWIDIADAU I BROSBECTWS YR YSGOL

- Cynhwysa'r prospectws yr holl wybodaeth berthnasol gyda'r dyddiadau yn unig wedi eu newid ar gyfer argraffiad 2024-2025 ynghyd â enwau Llywodraethwyr newydd.
- Diweddarwyd y lluniau yn berthnasol.

SUMMARY OF CHANGES TO SCHOOL PROSPECTUS

- The school prospectus included all relevant information and was updated for 2024-25 with term dates and the names of new Governors.
- Photographs were updated accordingly.

Dyddiadau Gwyliau Ysgol a Dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd

(2025-26)

School Holiday Dates and Staff Training Days

HYDREF	2025-2026	AUTUMN
Hyfforddiant Mewn Swydd	**01/09/2025**	***Staff Training Day***
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	02/09/25	*Term Start for Pupils*
Cau Hanner Tymor	23/10/25	*Half Term Close*
Hyfforddiant Mewn Swydd	**24/10/25**	***Staff Training Day***
Agor Hanner Tymor	03/11/25	*Half Term Open*
Diwedd Tymor	19/12/25	*End of Term*
GWANWYN		***SPRING***
Hyfforddiant Mewn Swydd	**05/01/26**	***Staff Training Day***
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	06/01/26	*Term Start for Pupils*
Cau Hanner Tymor	13/02/26	*Half Term Close*
Agor Hanner Tymor	23/02/26	*Half Term Open*
Hyfforddiant Mewn Swydd	**13/03/26**	***Staff Training Day***
Diwedd Tymor	27/03/26	*End of Term*
HAF		***SUMMER***
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	13/04/26	*Term Start for Pupils*
Dydd Gwyl Fai	**04/05/26**	***May Day***
Cau Hanner Tymor	22/05/26	*Half Term Close*
Agor Hanner Tymor	01/06/26	*Half Term Open*
Hyfforddiant Mewn Swydd	**26/06/26**	***Staff Training Day***
Diwedd Tymor i Ddisgyblion	17/07/26	*End of Term for Pupils*
Hyfforddiant Mewn Swydd	**20/07/26**	***Staff Training Day***

ORIAU DYSGU / *TEACHING HOURS*

Meithrin	12.5 awr yr wythnos	*Nursery*	*12.5 hours per week*
Babanod	21 awr yr wythnos	*Infants*	*21 hours per week*
Iau	23.5 awr yr wythnos	*Juniors*	*23.5 hours per week*

Sesiwn y bore Meithrin	9:00 – 11:30	*Morning Session Nursery*
Sesiwn y Bore Babanod	9:00 – 12:00	*Morning Session Infants*
Sesiwn y bore Iau	9:00 – 12:05	*Morning Session Juniors*
Sesiwn y Prynhawn Babanod	1:00 – 3:00	*Afternoon Session Infants*
Sesiwn y Prynhawn Iau	1:00 – 3:30	*Afternoon Session Junior*